

DONIAU'R DYFODOL

CANLLAWIAU YMGEISWYR



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfle i gyflogwyr enwebu prentisiaid sydd ganddyn nhw ar hyn o bryd ac sydd wedi dangos cynnydd personol sylweddol ac wedi rhoi hwb pendant a chadarnhaol i berfformiad y sefydliad.

Dylai'r ceisiadau ddangos:

- Ymroddiad pendant gan brentis i ddatblygiad personol parhaus.
- Bod y prentis wedi cyfrannu'n sylweddol at y busnes gan gynnig gwerth ychwanegol.
- Bod y prentis wedi dangos sgiliau lefel uchel a/neu wedi cyfrannu'n sylweddol at y sector lle mae'n gweithio.
- Y "pellter a deithiwyd" gan y prentis er mwyn llwyddo yn y maes a ddewiswyd ganddo/ganddi.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer Gwobr Doniau'r Dyfodol, mae'n rhaid bod y prentis a enwebir yn dilyn prentisiaeth sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru ar unrhyw lefel.

Adran 1: Manylion y dysgwr – i'w llenwi gan y cyflogwr.

Ers faint o amser mae wedi'i gyflogi/chyflogi?

Teitl llawn y Fframwaith Prentisiaeth.

C23. Dyddiad pryd y cwblhawyd neu y disgwyli'r cwblhau'r Brentisiaeth:

Adran 2: Manylion y cyflogwr – i'w llenwi gan y cyflogwr.

Adran 3: Prentisiaethau – i'w llenwi gan y cyflogwr.

Diben yr adran hon yw i chi, y cyflogwr, roi gwybodaeth allweddol am faint y sefydliad, y math o fusnes/gweithgarwch a lle mae'r prentis yn ffitio yn strwythur eich sefydliad. Dywedwch wrthym:

- Faint o brentisiaid rydych chi'n eu cyflogi yn eich sefydliad ar hyn o bryd?
- Ers faint o amser y bu'ch Rhaglen Brentisiaethau ar waith?
- Faint o brentisiaid rydych chi wedi'u recriwtio dros y pum mlynedd ddiwethaf?
- Pa Fframweithiau Prentisiaethau sy'n cael eu cyflenwi yn eich sefydliad chi ar hyn o bryd?

(Hyd at 300 gair) *



Adran 4: Doniau'r Dyfodol – i'w llenwi gan y cyflogwr.

C1. Esboniwch eich rhesymeg dros gyflogi'r prentis rydych yn ei enwebu am y wobwr hon. Mae'n bwysig disgrifio ei rôl yn y sefydliad a rhoi syniad o gyfraniad personol y prentis at amcanion y tîm (os yw'n briodol) a pherfformiad y prentis. (Hyd at 450 gair)

Dylech ystyried cynnwys gwybodaeth am:

- Yr angen a nodwyd gennych yn y busnes/sefydliad a fyddai'n cael ei ddiwallu drwy recriwtio'r prentis.
- Esboniad o gysylltiad Rhaglen y Brentisiaeth ag amcanion y sefydliad/busnes.
- Y canlyniadau rydych yn eu disgwyl o Raglen y Brentisiaeth h.y. sut fyddai llwyddiant yn edrych?

C2. Dywedwch wrthym pam yr ydych o'r farn bod yr hyn y mae'r prentis yn ei gyflawni 'yn uwch na'r norm'. Gall hyn ymwneud â lefelau perfformiad y prentis yn ei rôl bresennol, y ffordd y mae wedi symud ymlaen trwy lefelau prentisiaethau neu wedi symud ymlaen i hyfforddiant pellach. (Hyd at 450 gair)

Dyma rai enghreifftiau o wybodaeth benodol fuddiol:

- Ffyrdd y mae'r prentis wedi tyfu/datblygu ers ei recriwtio.
- Sut mae'r unigolyn wedi rhagori ar eich disgwyliadau.
- Mae enghreifftiau o'r ffordd mae'r prentis wedi mynd ati i gymryd perchnogaeth o'i (d)datblygiad personol yn arbennig o ddefnyddiol (h.y. y tu hwnt i ymateb i gyfleoedd rydych chi wedi'u darparu).

C3. Soniwch wrthym pam yr ydych yn credu bod y prentis yn batrwm ar gyfer Doniau'r Dyfodol. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am allu'r prentis i wneud y gwaith, cymhelliant y prentis a dangosyddion perfformiad eithriadol. Rhowch enghreifftiau o'r ffordd y mae llwyddiannau'r prentis wedi helpu nid y prentis yn unig ond eich sefydliad chi hefyd. (Hyd at 450 gair)

Byddai'n fuddiol i'r Beirniaid pe gallech gynnwys gwybodaeth am y rhain:

- Sut mae'r hyn y mae'r prentis wedi'i gyflawni wedi bod o fudd uniongyrchol (neu anuniongyrchol) i'r sefydliad, a sut mae'r rhain yn effeithio ar berfformiad y sefydliad/busnes.
- Pethau pendant a gyflawnwyd o ganlyniad i gyfraniad y prentis – er enghraifft bod y busnes wedi tyfu, cynnydd mewn gwerthiant a/neu broffidioldeb, ffyrdd mwy effeithlon o weithio, morâl y staff yn uwch.
- Os yw'r prentis wedi dangos enghreifftiau nodedig o sgiliau arwain, gweithgareddau entrepreneuriaidd neu enghreifftiau eraill o ymroddiad i'r sefydliad.

Adran 5: cefnogaeth y darparwr dysgu – i'w llenwi gan y darparwr dysgu.

C4. Pam, ar sail y sylwadau, y dylid ystyried y cais hwn yn y categori Doniau'r Dyfodol? (Hyd at 250 gair)

Mae'n fuddiol cynnwys gwybodaeth/enghreifftiau pendant i ategu'ch cefnogaeth. Gall hyn gynnwys:

- gwybodaeth am y ffordd mae'r prentis wedi datblygu nodau ac amcanion sefydliad y cyflogwr a chyfrannu at eu cyflawni,
- enghreifftiau o roi gwerth ychwanegol i gydweithwyr eraill e.e. trwy fentora, cefnogaeth unigol, hyfforddiant gan gymheiriaid (peer training).

Adran 6: Datganiad – i'w llenwi gan y prentis.

C5 Datganiad

Mae'r dysgwr a enwir yn y cais hwn yn dymuno cael ei ystyried ar gyfer Gwobr Doniau'r Dyfodol, ac mae'n cadarnhau bod y manylion a roddir yn y cais yn gywir.

Wrth ymgeisio am Wobr Doniau'r Dyfodol, rwy'n cytuno i gymryd rhan mewn unrhyw gyhoeddusrwydd ynghylch Gwobrau Prentisiaethau Cymru yn cynnwys tynnu lluniau, ffilmio a datblygu astudiaethau achos ymhlith pethau eraill. Rwy'n deall y bydd datganiadau i'r wasg yn cael eu rhyddhau cyn y digwyddiad, yn ystod y digwyddiad ac wedyn fel rhan o waith cyhoeddusrwydd Gwobrau Prentisiaethau Cymru. Yn ogystal, os caf fy newis i gyrraedd y Rhestr Fer ac na fyddaf yn gallu mynd i'r Seremoni Wobrwyo am ryw reswm, byddaf yn sicrhau bod rhywun yn mynd ar fy rhan.

Rwy'n cytuno â'r datganiad.

Ydw

Na

Os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer, gall fod peth cyhoeddusrwydd i'ch cais yn y cyfryngau. Gofynnir i chi gadarnhau un o'r pethau isod:

Rwy'n 18 neu drosodd ac yn fodlon rhoi caniatâd ar gyfer cyhoeddusrwydd yn ymwneud â fy nghais

Rwyf o dan 18 ac mae gennyf ganiatâd gan fy rhiant/gwarcheidwad i gymryd rhan mewn cyhoeddusrwydd yn ymwneud â fy nghais

Preifatrwydd

Caiff pob ymgais ei thrin yn hollol gyfrinachol. Dim ond er mwyn hyrwyddo Rhaglen Brentisiaethau Llywodraeth Cymru a'u Rhaglenni Sgiliau a Chyflogadwyedd

ehangach y bydd Llywodraeth Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW) yn defnyddio'r wybodaeth a roddir. Nid ydym yn gallu anfon y ceisiadau na'r wybodaeth ategol yn ôl.